OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 833

## Rheoliadau Deddfau Trethi Cymru (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019

## RHAN 4

### Cynlluniau contractiol awdurdodedig cyfberchnogaeth

**Disgrifiad o gynllun contractiol awdurdodedig cyfberchnogaeth o dan adran 36(8) o DTTT**

**4.**—(1) Mae cynllun contractiol awdurdodedig cyfberchnogaeth o'r disgrifiad ym mharagraff (2) i'w drin fel pe na bai'n gynllun contractiol awdurdodedig cyfberchnogaeth at ddibenion DTTT a DCRhT fel y mae'n gymwys mewn perthynas â threth trafodiadau tir.

(2) Y disgrifiad yw bod y cynllun—

(a) wedi ei gyfansoddi o dan gyfraith Gwladwriaeth AEE drwy gontract,

(b) wedi ei reoli gan gorff corfforaethol a ymgorfforir o dan gyfraith Gwladwriaeth AEE, ac

(c) wedi ei awdurdodi o dan gyfraith y Wladwriaeth AEE a grybwyllir yn is-baragraff (a) mewn ffordd sy'n golygu ei fod, o dan y gyfraith honno, yn cyfateb i gynllun contractiol awdurdodedig cyfberchnogaeth a ddiffinnir yn adran 36(7) o DTTT.

(3) Mae'r rheoliad hwn yn cael effaith mewn perthynas ag unrhyw drafodiad tir y mae ei ddyddiad cael effaith ar y diwrnod ymadael neu ar ôl hynny.